

Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod 14 Rhagfyr 2021

Aelod / Swyddog Arweiniol: Y Cyngorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd (gan gynnwys Cyngor Sero Carbon net) / Steve Gadd; Pennaeth Cyllid ac Asedau; Alan Smith, Pennaeth Cynllunio a Gwella Busnes (Noddwr y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol)

Awdur yr Adroddiad: David Lorey, Swyddog Arweiniol Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Dai

Teitl Safon Gofynnol Arfaethedig ar gyfer gwaith Adeiladu Newydd a Phrosiectau Adeiladu Estyniad/Ailwampio Mawr Annomestig Cyngor Sir Ddinbych gan gynnwys targedau carbon o ran eu defnydd ac o fewn yr adeilad

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r safon ofynnol arfaethedig y mae'n rhaid i brosiectau gwaith adeiladu newydd a phrosiectau adeiladu estyniad/ailwampio mawr annomestig Cyngor Sir Ddinbych gydymffurfio â hi gan gynnwys targedau carbon o ran eu defnydd ac o fewn yr adeilad.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad ar fabwysiadu a gweithredu'r safon ofynnol arfaethedig.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cytuno i fabwysiadu a gweithredu Safon Adeiladu CSDd ar gyfer gwaith adeiladu newydd a phrosiectau adeiladu estyniad/ailwampio mawr annomestig i fodloni targedau carbon o ran eu defnydd ac o fewn yr adeilad.

- 3.2 Bod y safon yn cael ei gweithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â nod y Cyngor i fod yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.
- 3.3 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Datganodd CSDd Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019 gan ymrwmo i fod yn Gyngor sero carbon net erbyn 2030. Mabwysiadwyd Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021-2030 gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021 ac mae'n cynnig map ffordd i gyflawni'r nod sero carbon net, sy'n golygu gostyngiad o 60% yn allyriadau carbon Adeiladau annomestig y Cyngor erbyn 2030 o'i gymharu â gwaelodlin 2019/20.
- 4.2. Er bod camau cydlynol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â stoc adeiladau annomestig presennol y Cyngor, mae'n ymddangos na fydd y safonau rheoleiddio presennol yn ddigonol i sicrhau bod unrhyw adeiladau newydd neu estyniadau mawr yn cyfrannu ddigon at gyflawni nod sero carbon net y Cyngor. Bydd cyflwyno ein safon ein hunain yn osgoi'r angen posibl am ôl-osod mesurau lleihau carbon yn nes ymlaen yn ystod gwaith adeiladu newydd a phrosiectau adeiladu estyniad/ailwampio mawr annomestig.
- 4.3. Cynigir bod CSDd yn mabwysiadu safon adeiladu i fodloni targedau carbon o ran eu defnydd ac o fewn yr adeilad ar gyfer pob prosiect adeiladu newydd annomestig, gan gynnwys gwaith ailwampio / estyniadau mawr, a'i bod yn cael ei gweithredu ar unwaith ar gyfer unrhyw brosiectau nad ydynt wedi datblygu ymhellach na cham 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) – cydlynu gofodol¹.
- 4.4. Gweler Atodiad 2 am fanylion ar y safon sy'n seiliedig ar ddiffiniad ac arferion gorau adeiladu Cyngor Adeiladu Gwyrdd y DU.

¹ Mae Cynllun Gwaith RIBA yn trefnu'r broses o frifio, cynllunio, adeiladu, cynnal a chadw, gweithredu a defnyddio prosiectau adeiladu yn wyth cam allweddol, mae'r rhain fel a ganlyn: 0: Diffiniad Strategol; 1: Paratoi a Brifio; 2: Dylunio Cysyniad; 3: Cydlynu Gofodol; 4: Dylunio Technegol; 5. Gweithgynhyrchu ac Adeiladu; 6: Trosglwyddo; 7: Defnyddio

- 4.5. Cynigir y dylid gweithredu'r safon adeiladu a gaiff ei mabwysiadu ar unwaith. Gweler Atodiad 3 am fanylion y dull cynyddrannol.
- 4.6. Cynigir hefyd bod y safon yn cael ei gweithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â nod y Cyngor i fod yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030. Gweler Atodiad 4 am fanylion ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hynny.
- 4.7. Mae enghreifftiau o waith adeiladu newydd a phrosiectau adeiladu estyniad/ailwampio mawr annomestig sydd wedi cael eu cwblhau neu wrthi'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd yn y DU gan ddilyn safon adeiladu debyg. Gweler Atodiad 5.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Byddai mabwysiadu'r safon hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at ymdrechion Cyngor Sir Ddinbych i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a Newid Ecolegol a gweithredu'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a fabwysiadwyd sy'n nodi bod y Cyngor yn ymrwymo i fod yn sero carbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030, yn ogystal â lleihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi o 35%.
- 5.2 Yn ogystal â hynny, mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys blaenoriaeth sy'n ymwneud â'r Amgylchedd ac yn targedu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a diogelu ac adfer bioamrywiaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cost

- 6.1 Rhagwelir y bydd goblygiadau o ran costau dylunio ac adeiladu cychwynnol ynghlwm â mabwysiadu a gweithredu safon o'r fath, fodd bynnag, fe ddylai costau defnyddio ostwng yn sylweddol, gyda'r posibilrwydd o fod yn gost-niwtral dros oes weithredol yr adeilad. Rhagwelir y bydd costau cyfalaf cychwynnol yn normaleiddio dros amser wrth i elfennau o'r safon hon ddod yn fwy cyffredin yn y diwydiant.
- 6.2 Bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n ymfyn estyniadau, gwaith ailwampio neu adeiladau newydd annomestig gynnwys y costau ychwanegol tebygol mewn achosion busnes prosiectau a cheisiadau am gyllid allanol a dangos cydymffurfiaeth â'r safon arfaethedig drwy brosesau democrataidd a chymeradwyo mewnol.

6.3 Gellir ond cynnig amcangyfrif o'r cynnydd posibl mewn costau cyfalaf cychwynnol a ddisgwyllir wrth fabwysiadu'r safon hon ar hyn o bryd gan fod astudiaethau achos a meincnodau'n brin. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd oddeutu 19% o gynnydd ar brisiau a dulliau 2021. Darperir rhagor o wybodaeth yn Atodiad 6, sydd hefyd yn cynnwys yr effaith gronol y gallai hyn ei chael ar y rhaglen waith arfaethedig o fewn y portffolio Addysg.

Gwasanaethau

6.4 Mae nifer o wasanaethau gwahanol o fewn y Cyngor yn comisiynu adeiladau newydd a phrosiectau ailwampio / estyniadau mawr annomestig. Fe ddylai bob un ohonynt ddefnyddio gwasanaeth Dylunio ac Adeiladu mewnol y Cyngor. Er y bydd gwasanaeth Dylunio ac Adeiladu'r Cyngor yn rhoi'r safonau arfaethedig ar waith yn awtomatig (gan ddilyn y dull gweithredu cynyddrannol a nodir) ar gyfer prosiectau a gaiff eu comisiynu, bydd yn rhaid i Wasanaethau fod yn ymwybodol o'r safon hon a chydabod y bydd yn rhaid ei hystyried ar ddechrau prosiectau mewn perthynas â hyfywedd a sicrhau bod costau'n cael eu cynnwys mewn dulliau ariannu ac unrhyw geisiadau cyllido allanol cysylltiedig.

6.5 Awgrymir y byddai'r safon arfaethedig, pe bai'n cael ei mabwysiadu, yn cael ei chyfathrebu i bob Maes Gwasanaeth a'n partneriaid / cydweithwyr. Darperir rhestr o brosiectau adeiladu annomestig sydd ar y gweill gan y Cyngor nad ydynt wedi cyrraedd Cam 3 RIBA ac felly fyddai angen rhyngweithio â'r safon hon yn Atodiad 7. Nodwch os gwelwch yn dda: nid yw hon yn rhestr gyflawn ac mae rhai o'r prosiectau a restrir yn amodol ar sicrhau cyllid allanol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Gweler yr Asesiad o Effaith ar Les yn Atodiad 1 gan gynnwys y prif gasgliadau ar dudalen 3.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r cam o fabwysiadu Safon Adeiladu yn seiliedig ar dargedau carbon o ran ei ddefnydd ac o fewn yr adeilad wedi'i gynnwys yn Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor(2020/21-2029/30) ac ymgynghorwyd ar hyn gydag Aelodau

ym mis Medi/Hydref 2020, gyda'r cyhoedd ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020 ac fe'i mabwysiadwyd yn unfrydol gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021.

8.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu gydag Addysg a Gwasanaethau Plant oherwydd mae'n bosibl mai nhw fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y penderfyniad hwn o fewn y Cyngor, yn ogystal â thrafodaethau gyda'r Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg a thrafodaethau parhaus ar lefel swyddogion. Cynhaliwyd trafodaethau am y safon arfaethedig gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Rheolwr Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru, y Rheolwr Buddion Cymunedol a'r Rheolwr Prosiect sy'n gweithio gyda Gwasanaethau Cymorth Cymunedol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Er y bydd cynnydd cychwynnol yng nghostau prosiectau, dylid cofio y bydd costau rhedeg yn gostwng a bydd modd osgoi prosiectau ôl-osod costus yn y tymor canolig wrth i safonau gynyddu. Yn amlwg, mae'r cyfraniad cyffredinol at darged y Cyngor i fod yn Sero Carbon Net erbyn 2030 wedi cael ei ystyried hefyd.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r risgiau sydd ynghlwm â mabwysiadu'r safon yn cynnwys:

- Gall costau ychwanegol fod yn uwch na'r disgwyl. Bydd yn rhaid monitro hyn a bydd y dull prosiect 'peilot' yn helpu i bennu effeithlonrwydd y mesurau arfaethedig o ran cyflawni sero carbon net a'r costau.
- Mae'n bosibl y bydd yn anodd denu a chadw adnoddau staff ychwanegol o ystyried y galw cynyddol am gynlluniau ynni/datgarboneiddio. Er y byddai'n ddelfrydol hyfforddi staff mewnol a chynnal dealltwriaeth o stoc adeiladau'r Cyngor, nid yw'n anghyffredin i ddefnyddio ymgynghorwyr allanol i reoli gwybodaeth a/neu ddiffyg capasiti.

10.2 Mae'r risgiau sydd ynghlwm â pheidio â mabwysiadu'r safon yn cynnwys:

- ein bod yn adeiladu prosiectau sy'n cael effaith ar allu sefydliadau i gyflawni sero carbon net erbyn 2030
- ein bod yn adeiladu prosiectau y bydd yn rhaid eu hól-osod yn y dyfodol er mwyn cyflawni nodau lleol a/neu newid mewn rheoliadau/deddfwriaethau cenedlaethol

- nad ydym yn manteisio ar gyfleoedd grant / cyllid ychwanegol a gynigir i'r rhai sy'n mabwysiadu'n gynnar
- ein bod yn wynebu costau cynnal uwch mewn adeiladau
- ein bod yn andwyo ein henw da â'r cyhoedd gan nad yw pobl yn credu bod ein prosiectau adeiladu'n cyd-fynd â datganiad Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol y Cyngor.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Gweler Atodiad 8.